



Ein Cyf/Our Ref: DAO (Wales) 01-19

Dyddiad: 08 Chwefror 2019

## At Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr Cymru.

### DAO (Wales) 01/19

Annwyl Swyddogion Cyfrifro

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr yn Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU ar ddarn o waith i asesu gallu'r sector cyhoeddus i gael gafael ar ddata gofynnol os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Er bod Llywodraeth Cymru yn dal i ddweud na ddylai ymadael â'r UE heb gytundeb fod yn opsiwn, o ystyried y niwed sylweddol y byddai hyn yn ei wneud, mae cyfrifoldeb arnom i baratoi ar gyfer sefyllfa o'r fath.

Yn benodol, mae'r gwaith yn asesu i ba raddau mae gan gyrff sector cyhoeddus drefniadau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, y gyflogres, AD, storio data ac unrhyw feysydd eraill sy'n dibynnu ar drosglwyddo data o Aelod-wladwriaethau'r UE/AEE a thrydydd gwledydd y mae Comisiwn yr UE wedi cydnabod bod ganddynt lefel ddigonol o ddiogelwch data, neu brosesu data yn y gwledydd hynny.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith hwn, yn comisiynu ei Gyrrff a Noddir i gynnal hunanasesiad o'u trefniadau eu hunain i gael gafael ar y data gofynnol os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb. Mae llyfr gwaith wedi ei ddatblygu sy'n cynnwys cyfres o gwestiynau a fydd yn tywys sefydliadau

trwy'r broses hunanasesu ynghlwm wrth y llythyr hwn yn **Atodiad 1**. Rwy'n gofyn i chi ateb *Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

y cwestiynau yn y llyfr gwaith yn annibynnol a'i ddychwelyd i dîm Llywodraeth Cymru mewn e-bost at [redmond.strivens@gov.wales](mailto:redmond.strivens@gov.wales) erbyn 18 Chwefror 2019. Gall y wybodaeth a ddarperir yn y llyfr gwaith gael ei defnyddio hefyd i gefnogi cynlluniau seiberydnerthed ehangach Llywodraeth Cymru.

Ynglwm wrth y llythyr hwn yn **Atodiad 2** mae crynodeb o gyngor parodrwydd y DU a'r UE ar symud data personol ar ôl Brexit. Mae'n cynnwys dolenni i'r wybodaeth lawn gan lywodraethau'r DU a'r UE, ynghyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a byddem yn annog rhanddeiliaid i ystyried y canllawiau yn y wybodaeth honno. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gwblhau'r llyfr gwaith, cysylltwch â Red Strivens yn y cyfeiriad e-bost uchod.

Dymuniadau gorau

**Julia Douch**  
**Rheolwr Gweithredu ar gyfer Cyrff Cyhoeddus**